

Rhoi Organau Cymru

Organ Donation Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhoi Organau yng Nghymru

Dyma'ch opsiynau:

**Rydw i am fod
yn rhoddwr organau**

**Dydw i ddim am fod
yn rhoddwr organau**

Optio i mewn

Cofrestru
penderfyniad i
fod yn rhoddwr.

Gwneud dim

Nid oes gennych
wrthwynebiad i fod yn
rhoddwr organau. Mae'n
bosib y byddwn yn tybio
eich bod wedi cydsynio.

Optio allan

Cofrestru
penderfyniad
i beidio â bod
yn rhoddwr
organau.

Beth bynnag yw'ch penderfyniad – dywedwch wrth eich teulu

**I gofrestru eich penderfyniad neu i gael rhagor
o wybodaeth:**

Ewch i: www.llyw.cymru/rhoi-organau-canllaw, neu

Ffoniwch: 0300 123 23 23

(Bydd galwadau i'r llinell ffôn yma yn cael eu hateb gan Wasanaeth
Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG)

 OrganDonationWales

 OrgDonationCYM

Beth yw rhoi organau?

Mae llawer o bobl yng Nghymru a'r DU yn aros am organ newydd gan fod eu horganau nhw eu hunain wedi stopio gweithio'n iawn a bod angen trawsblaniad amynt.

Pan fyddwn yn marw, efallai y byddwn yn gallu rhoi ein horganau i helpu rhywun sydd angen trawsblaniad. Gall trawsblaniad achub neu drawsnewid bywydau pobl eraill.

Mae'r system rhoi organau yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i bobl ddod yn rhoddwyr. Mae modd ichi gofrestru eich penderfyniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), dweud beth yw eich penderfyniad wrth eich teulu, neu ddewis gwneud dim. Os byddwch yn dewis gwneud dim, byddwch yn cael eich trin fel pe nad ydych chi'n gwrthwynebu bod yn rhoddwr organau a thybir eich bod chi wedi rhoi eich cydsyniad. Bydd rhoi gwybod i'ch teulu am eich penderfyniad yn eu helpu os byddwch yn marw a bod rhoi organau yn opsiwn. Pan fydd rhywun yn cysylltu â'ch teulu, byddant yn gwybod beth yw eich penderfyniad ar roi organau a byddant yn gallu gwireddu'r penderfyniad hwnnw.

Ond, os na fyddwch yn cofrestru penderfyniad (optio i mewn nac optio allan) ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG nac yn dweud wrth eich teulu, yna byddwch yn cael eich trin fel pe nad ydych chi'n gwrthwynebu bod yn rhoddwr. Mae hyn yn cael ei alw'n gydsyniad tybiedig.

Gallwch 'benodi cynrychiolydd' os hoffech chi wneud hynny. Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn i gyfaill, aelod o'r teulu neu arweinydd crefyddol wneud y penderfyniad drosoch chi. I ddysgu sut mae gwneud hyn, ewch i:

www.llyw.cymru/rhoi-organau-canllaw



**Sarah – Nyrs Arbenigol
ar gyfer Rhoi Organau:**

"Fy nghyngor i yw bod yn glir ac yn onest a gwneud yn siŵr bod pawb sy'n bwysig i chi yn gwybod beth yw eich penderfyniad er mwyn i'ch dewis allu gael ei barchu."

Mae'r system rhoi organau yn berthnasol i bawb.

Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG yn cael ei gwirio pan fydd unrhyw un yn marw a bod modd iddo roi ei organau. Os nad oes penderfyniad wedi'i gofrestru, bydd rhaid cysylltu â'r teulu i weld a oedd yr unigolyn wedi gwneud penderfyniad ar roi organau. Os nad oes penderfyniad wedi'i wneud a bod yr unigolyn:

- dros 18 oed ac
- wedi dewis byw yng Nghymru ers dros 12 o fisoedd ac
- wedi marw yng Nghymru ac
- yn gallu deall beth yw rhoi organau, yna tybir ei fod wedi rhoi ei gydsyniad a bydd yn dod yn rhoddwr organau.

Pe byddai'n dod yn bosib ichi roi organau, byddai eich teulu neu'ch cyfeillion wastad rhan o'r broses. Rhaid i deuluoedd neu gyfeillion ateb cwestiynau pwysig am eich hanes meddygol a chadarnhau mai yng Nghymru yr oeddech chi'n byw fel arfer. Pe byddent yn gwybod beth yw eich penderfyniad ar roi organau, byddai modd iddynt ddweud wrth y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Pe na fyddai modd cysylltu â'r teulu neu'r cynrychiolwyr sydd wedi'u penodi, ni fyddai'r organau'n cael eu rhoi.

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru eich penderfyniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG, dylech ddweud wrth eich teulu a'ch cyfeillion fel eu bod yn ymwybodol o'ch penderfyniad.

Gallwch newid eich penderfyniad unrhyw bryd ar ein gwefan neu drwy ffonio'r llinell gymorth.

Nathan – Wedi cael trawsblaniad

"Dw i yma heddiw oherwydd rhoddwr organau – rhoddodd y person hwnnw gyfle arall imi gael bywyd."



Rhagor o wybodaeth

Evch i: www.llyw.cymru/rhoi-organau-canllaw